Grŵp Goruchwylio Iechyd Gwaed Cenedlaethol (BHNOG)
Grŵp Strategaeth Addysg
Cylch Gorchwyl

## 1. Pwrpas

Mae Grŵp Strategaeth Addysg Grŵp Goruchwylio Iechyd Gwaed Cenedlaethol (BHNOG) wedi'i sefydlu i roi Strategaeth Addysg 2021 BHNOG ar waith[1]. Mae'r strategaeth wedi'i llunio i sicrhau bod ymagwedd strwythuredig a chydlynol at addysg trallwyso yn cael ei mabwysiadu yng Nghymru sy'n cyd-fynd ag amcanion Cynllun Iechyd Gwaed BHNOG/GIG Cymru a'i raglen waith drosfwaol.

Mae'r Grŵp Strategaeth Addysg yn gyfrifol am ddatblygu'r rhaglen waith ar gyfer cyflawni'r strategaeth, gan gynnwys blaenoriaethu. Bydd y Grŵp Strategaeth Addysg yn cydweithio â grwpiau ac unigolion allweddol i gefnogi a helpu'r gwaith o ddarparu addysg trallwyso, ymgorffori egwyddorion trallwyso a hyrwyddo'r diwylliant diogelwch sy'n gysylltiedig ag arferion trallwyso diogel.

## 2. Nod

Nod y Grŵp Strategaeth Addysg yw sicrhau ymagwedd gydlynol a safonol at addysg trallwyso ledled Cymru a gweithio gydag arweinwyr ffrydiau gwaith BHNOG, gweithwyr gofal iechyd proffesiynol allweddol ac arbenigwyr pwnc i gyflwyno rhaglenni addysg trallwyso effeithiol a chynhwysol.

## 3. Llywodraethu

Mae'r Grŵp Strategaeth Addysg yn atebol i BHNOG ac yn dilyn llwybrau llywodraethu cydnabyddedig wedi'u diffinio yng nghylch gorchwyl BHNOG[2].

## 4. Cadeirydd

Bydd y Grŵp Strategaeth Addysg yn cael ei gadeirio gan gynrychiolydd o'r grŵp yr aelodaeth graidd a'i gymeradwyo gan BHNOG. Bydd dirprwy Gadeirydd hefyd yn cael ei benodi unwaith y bydd y grŵp wedi'i sefydlu

### Aelodaeth

# Grŵp Goruchwylio Iechyd Gwaed Cenedlaethol (BHNOG)
## Grŵp Strategaeth Addysg
### Cylch Gorchwyl

| *Aelodaeth Graidd* |
|---|
| Arweinydd Addysg a Chymwysterau Gwyddonol Gwasanaeth Gwaed Cymru |
| Arweinydd Cenedlaethol Tîm Iechyd Gwaed Gwasanaeth Gwaed Cymru |
| Arweinydd Addysg y Tîm Iechyd Gwaed |
| Cadeirydd Gweithgor Peryglon Difrifol Trallwyso Gwaed |
| Cynrychiolydd Grŵp Ymarferwyr Trallwyso Cymru Gyfan |
| Cynrychiolydd Grŵp Rheolwyr Labordai Trallwyso |
| Cynrychiolydd haematolegydd |
| Arweinydd Rhaglen Awdurdodi Trallwyso Cyfansoddion Gwaed yn Annibynnol |

| *Aelodau Ad-hoc* |
|---|
| Cynrychiolydd Addysg Feddygol Israddedig |
| Cynrychiolydd Addysg Nyrsio Israddedig |
| Cynrychiolydd Addysg Bydwreigiaeth Israddedig |
| Cynrychiolydd Addysg Rhaglenni Israddedig Perthynol i Ofal Iechyd |
| Cynrychiolydd Addysg Feddygol Ôl-raddedig |
| Cynrychiolydd Dysgu, Addysg a Datblygu |
| Cynrychiolydd Grŵp Addysg Wyddonol Grŵp Gweithlu ac Addysg Batholeg |

## 5. Fformat Cyfarfodydd a'r Dogfennau Angenrheidiol

Bydd y Grŵp Strategaeth Addysg yn cwrdd bob chwarter cyn cyfarfodydd BHNOG; Cynhelir cyfarfodydd y Grŵp Strategaeth Addysg yn rhithwir dros MS Teams.

Bydd y Tîm Iechyd Gwaed yn rhoi cymorth gweinyddol.

Bydd angen y dogfennau canlynol:

- Nodiadau o'r cyfarfod blaenorol a chofnod gweithredu
- Dogfennau sy'n cefnogi eitemau ar yr agenda
- Adroddiad crynhoi cynnydd chwarterol gan y Grŵp Strategaeth Addysg i'w gyflwyno yng nghyfarfodydd BHNOG

## 6. Cylch gorchwyl

Bydd y Grŵp Strategaeth Addysg yn gweithio'n strategol ledled Cymru i gefnogi gofynion addysg trallwyso, fel a ganlyn:

- Uwch Gynorthwyydd Dan Hyfforddiant (myfyrwyr meddygol)
- Nyrs y Dyfodol, Bydwraig y Dyfodol (myfyrwyr)
- Hyfforddiant Cofrestrydd Arbenigol Haematoleg
- Awdurdodi Trallwyso Cyfansoddion Gwaed yn Annibynnol
- Rhaglen Hyfforddiant Gwyddonol
- Rhaglen Sylfaen Feddygol (F1/F2)
- E-ddysgu a Chymwyseddau Trallwyso

## 7. Cyfeiriadau

[1] Strategaeth Addysg Trallwyso BHNOG 2021
https://bhnog.wales.nhs.uk/wp-content/uploads/2022/03/BHNOG-Transfusion-Education-Strategy-WELSH-Version-2021.pdf

[2] Cylch Gorchwyl BHNOG
https://bhnog.wales.nhs.uk/wp-content/uploads/2022/02/TOR-Welsh-Version.pdf